

## **CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO**

### **1. Presennol**

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

**Ymddiheuriadau:** Rhydwen Roberts, Llio Griffiths, Dion Roberts

### **2. Datgan Diddordeb**

Dim

### **3. Cadarnhau Cofnodion**

Cadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod 4 Mai 2020, gydag un newid, sef i ddweud fod y Cynghorydd Richard Jones yn bresennol.

Cadarnhawyd hefyd cofnodion 2 Mawrth 2020 gyda'r newidiadau a gytunwyd yng nghyfarfod 4 Mai 2020.

### **4. Dogfennau Polisi Un Llais Cymru**

Cytunwyd fod angen cytuno ac addasu dogfennaeth a pholisiau Un Llais Cymru ac y dylid gwneud hynny gam wrth gam yn ystod y flwyddyn 2020/21.

Mae'r Cynghorydd Llio Griffiths i ddanfon ymlaen copiau o'r dogfennau yma at y ddau aelod newydd, Dion Roberts ac Elin Jones.

### **5. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **5.1 Asesu Trefniadau Cyfarfod o Bell**

Cytunwyd fod y trefniadau i gyfarfod o bell drwy ddefnyddio Microsoft Teams yn gweithio'n iawn ar y cyfan, er fod amrywiaeth yn nghryfder y cysylltiad band eang yn medru effeithio ar yr ansawdd ar adegau.

## **5.2 13 Garreg Frech**

Ysgrifennodd y Clerc at Adra gan mai Adra sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r tai gerllaw 13 Garreg Frech, a bod pryder fod coeden ar yr eiddo yn dioddef o glefyd gwywiad coed ynn.

Cytunwyd fod y Cynghorydd Dafydd Watts yn tynnu llun o'r goeden ac yn gofyn i Richard Pearson am ei farn ar gyflwr y goeden. Cytunodd hefyd i ofyn am farn Dion Roberts er mwyn gweld os oedd yna rywun ym Mharc Cenedlaethol Eryri oedd ag arbenigedd coed.

Gofynnwyd hefyd i'r Clerc holi os oedd y gwasanaeth llysoedd wedi cau oherwydd COVID-19, gan fod Cyngor Gwynedd wedi awgrymu fod hyn yn eu rhwystro rhag bwrw ymlaen efo'r gorchymyn arwystl ar 13 Garreg Frech ar hyn o bryd, ac na fyddent yn gweithredu ar y mater eto tan y gaeaf.

## **5.3 Y Ganolfan**

Mae'r Clerc wrthi'n trefnu cyfarfod o bell efo Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd cyn diwedd mis Mehefin er mwyn trafod dyfodol Y Ganolfan.

## **5.4 Mynwent Tan Lan a Ffioedd Claddu**

Ymwelodd y Cynghorwyr Glyn Griffiths a Richard Jones â mynwent Tan Lan er mwyn cynnal asesiad risg. Cafwyd fod 3 carreg fedd ychydig yn rhydd, ond ddim yn ddrwg ofnadwy, ac ni fuasent yn disgyn heb fod rhywun yn ymyrryd yn fwriadol â nhw.

Bydd y Cynghorydd Richard Jones yn danfon rhestr o'r cerrig beddi at y Clerc, a bydd angen wedyn ystyried os oes angen rhoi rhybudd arnynt ai peidio.

Gwelwyd hefyd fod yna goeden yn dioddef o glefyd gwywiad coed ynn wedi ei lleoli wrth y cwt yn y fynwent a bod angen ei thorri i lawr. Awgrymwyd cysylltu efo Richard Pearson i wneud y gwaith yma.

Ceir hefyd coeden sycamorwydden ger wal y fynwent, ac mae angen torri honno hefyd, ac mae yna un neu ddwy goeden fach yr ochr bellaf. Mae angen gofyn am bris i dorri a chlirio'r rhain hefyd.

Hefyd mae angen paentio'r fainc yn y fynwent a meinciau eraill drwy'r gymuned a gofynnwyd i'r Clerc holi am bris am hynny. Cytunwyd hefyd fod angen gwneud rhestr o'r meinciau yn y gymuned a'i ddanfôn i'r aelodau ar gyfer trafodaeth a chadarnhad erbyn y cyfarfod nesaf.

Mae'r ffens bren wrth y man troi ceir yn y fynwent angen ei thrwsio. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Dylan Edwards er mwyn cael pris ar gyfer hyn.

Oherwydd fod canolfannau ailgylchu Gywnedd wedi bod ar gau am resymau COVID-19, gwnaethpwyd trefniadau i wagio'r bin yn safle Williams & Williams Y Ffor. Roedd costau o £30 ychwanegol i wneud hyn.

Trafodwyd ffioedd claddu mynwent Tan Lan. Cytunwyd ar y ffioedd presennol ym mis Mawrth 2018. Ystyrir fod lle i tua 50-60 bedd ar gael ar gyfer y dyfodol, heb unrhyw ddatblygiad i'r fynwent.

Cytunwyd i godi'r ffioedd claddu i blwyfolion £40 a £100 i rai o'r tu allan i'r plwyf. Cytunwyd hefyd i adolygu'r sefyllfa os yw nifer y claddedigaethau ar gyfer rhai y tu allan i'r plwyf yn parhau'n uchel. Credir fod y galw am gladdedigaethau gam rai y tu allan i'r plwyf oherwydd na llant gael claddedigaeth ym Mhenryndeuadraeth neu Benmorfa.

Penderfynwyd trafod faint i'w godi ar gyfer claddu llwch yng nghyfarfod nesaf y cyngor cymuned.

## **5.5 Coeden B4410**

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r goeden sydd wrth ochr y ffordd eac mae cwmpo'r goeden ar eu rhestr o waith i'w wneud.

## **5.6 Hyfforddiant Un Llais Cymru**

Mae'r Cynghorydd Llio Grififths wrthi'n holi os oes gan Un Llais Cymru unrhyw gyrsiau hyfforddi sy'n cale eu cynnal o bell ar hyn o bryd.

## **5.7 COVID-19**

Cafwyd llythyr gan y Dref Werdd yn nodi eu bod wedi cael arian gan gronfa Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ymateb i argyfwng COVID-19 yn ardaloedd Bro Ffestiniog, Dolwyddelan, Penrhyndeudraeth a'r cylch.

Maent am lgoi gofod yn hen adeilad yr HSBC ym Mhenrhyndeudraeth am gyfnod y prosiect o 6 mis, ac yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau gwresogi a thrydan.

Cytunwyd i roi cyfraniad o £200 mewn egwyddor, a bod y Clerc yn gofyn i'r Dref Werdd am amcan faint fyddai eu costau am gyfnod o 6 mis.

## **5.8 Adolygu Asesiad Risg ar gyfer 2020/21**

Cytunwyd i ohirio adolygu'r Asesiad Risg tan y cyfarfod nesaf.

## **5.9 Cynllun Parhad Busnes y Cyngor**

Mae'n debyg y byddai mynediad i Sharepoint ar gyfer cadw dogfennau yn costio £3.80 y mis, a byddai'n rhaid i bob aelod dalu'r swm yma fyddai'n golygu cost blynyddol o £364.80.

Gan hynny, gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru am gadw dogfennau ar Microsoft Teams.

## **5.10 Rhaglen Flynyddol**

Cytunwyd i fabwysiadu'r Rhaglen Flynyddol sy'n rhoi amserlen o beth sydd angen ei wneud pa bryd yn ystod y flwyddyn, ond bod cyfeiriad at ystyried yr asesiad risg ym mis Mai a Thachwedd bob blwyddyn – sef dwywaith y flwyddyn.

## **6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc, Mawrth, Ebrill, Mai 2020 £214.20 x 3 = £642.60

- 6.2 TWE, Mawrth, Ebrill, Mai 2020 £53.60 x 3 = £160.80
- 6.3 Dunn & Ellis Anfoneb 109214 £54.00
- 6.4 Treth Annomestig Y Ganolfan £815.86 – cafwyd gwybod gan Gyngor Gwynedd nad oedd y swm yma yn daladwy ar gyfer 2020/21 oherwydd COVID-19
- 6.5 Taliad £1,700 i'r banc Pritchard & Griffiths, claddedigaeth
- 6.6 Ffurflen Flynyddol 2019/20

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n cwblhau eu harchwiliad mewnol a gobeithir medry cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod nesaf y cyngor cymuned ar 29 Mehefin 2020.

## 7. Gohebiaeth

Llythyr gan Y Dref Werdd yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gostau swyddfa yn hen fanc HSBC ym Mhenrhyndeudraeth oherywdd COVID-19.

Gweler y drafodaeth am hyn yn eitem 5.7 uchod.

## 8. Materion Eraill

### 8.1 Llwybrau Cyhoeddus

Cafwyd e bost gan Gyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2019 yn dweud mai bwriad Cyngor Gwynedd fyddai cadw cynnal a chadw tymhorol llwybrau cyhoeddus ar gyfer 2020/21 yn ardal Llanfrothen yn debyg iawn i 2019/20.

Mae Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd wedi ymddeol yn ddiweddar ond yn byw'n lleol. Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths i holi ymhellach am fwriadau Cyngor Gwynedd parthed llwybrau cyhoeddus, am y flwyddyn i ddod, fel y gellid cael trafodaeth bellach y mis nesaf.

### 8.2 Arosfan Fysiau

Bu'r Clerc mewn cysylltiad efo Aled Lloyd, Uwch Swyddog Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri i ofyn am eu sylwadau ar gael arosfan fysiau ar y safle gwag dros y ffordd i dafarn y Ring yn Llanfrothen.

Awgrymwyd fod y cyngor cymuned yn trafod yn gyntaf efo Adran Trafnidiaeth a Chludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd er mwyn gweld os yw'r lleoliad yn dderbyniol.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell - 29 Mehefin 2020 7:30 yr hwyr**